OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 2732

# Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004

**Ffurfiau rhagnodedig mewn cysylltiad â gorchmynion prynu gorfodol**

**3.**—(1) At ddibenion adran 10(2) o'r Ddeddf, ffurf y gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) y mae'n rhaid ei defnyddio yw—

(a) Ffurf 1; neu

(b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 2; neu

(c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 3.

(2) At ddibenion adran 10(2), ffurf y gorchymyn prynu gorfodol clirio y mae'n rhaid ei defnyddio yw—

(a) Ffurf 4; neu

(b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 5; neu

(c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 6.

(3) At ddibenion—

(a) adran 11(1) o'r Ddeddf a pharagraff 2(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd; a

(b) adran 11(3) o'r Ddeddf a pharagraff 2(3) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad sydd i'w gosod ar neu gerllaw'r tir sydd yn y gorchymyn,

y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 7.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 4 —

(a) at ddibenion adran 12(1) o'r Ddeddf a paragraff 3(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad i berson cymwys(**1**) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 8; neu

(b) os gwneir y gorchymyn o dan adran 121 neu 125 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**) ar ran prif gyngor(**3**) neu gyngor cymuned, neu yn unol â chytundeb o dan adran 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**4**)) ar ran awdurdod priffyrdd(**4**), y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 9.

(**1**) I gael y diffiniad o "qualifying person", *gweler* adran 12(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 3(2) o Atodlen 1 iddi.
(**2**) 1972 p.70.
(**3**) I gael y diffiniad o "principal council", *gweler* adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
(**4**) 1980 p.66.

(5) At ddibenion adran 15 o'r Ddeddf a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad o gadarnhau (**5**)) neu wneud (**6**) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 10, ac eithrio pan wneir y cadarnhau gan yr awdurdod caffael yn unol ag adran 14A o'r Ddeddf, ac yn yr achos hwnnw y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 11.

(6) At ddibenion adran 22 o'r Ddeddf a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd, sy'n datgan bod tystysgrif wedi cael ei rhoi o dan adran 16 neu 19 o'r Ddeddf neu baragraff 3 neu 6 o Atodlen 3 iddi, y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 12.

(**4**) 1980 p.66.
(**5**) I gael ystyr "confirmation notice", *gweler* adran 15(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981.
(**6**) I gael y diffiniad o "making notice", *gweler* adran 6(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981.